

Atodiad 2B – Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gymunedol Aberdâr

Dyddiad	8 Ionawr 2025
Amser	14:00
Lleoliad	Ysgol Gymunedol Aberdâr

Yn bresennol		
Enw	Llythrennau cyntaf yr enw	Teitl
Kate Owen	KO	Swyddog Llwybrau'r Dyfodol 14 i 19
Catherine Williams	CW	Swyddog Prosiect Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Karen Leyshon	KW	Dirprwy Bennaeth Dros Dro
28 aelod o Gyngor Ysgol Gymunedol Aberdâr		

1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd KO groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb ei gyflwyno i'w gilydd.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd KO drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

3. Cwestiynau'r Cyngor Ysgol

Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gymunedol Aberdâr i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan y Cyngor Ysgol a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

Rhif	Cwestiwn/Sylw	Ymateb
1	Er nad ydw i'n gwrthwynebu'r syniad, rydw i'n bryderus nad oes digon o le yn y chweched dosbarth presennol ar gyfer disgyblion ychwanegol (byrddau, cadeiriau, ac ati). Does dim digon o offer TG chwaith. Rydyn ni eisoes yn rhannu offer mewn rhai pynciau (e.e. gwyddoniaeth) ac mae caffir chweched dosbarth bob amser yn llawn. Bydd hyn i gyd yn gwaethgu os bydd mwy o ddisgyblion chweched dosbarth.	Mae ysgolion yn derbyn cyllid ôl-16 yn seiliedig ar nifer y disgyblion ôl-16 sydd ar y gofrestr. Os bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr fwy o ddisgyblion chweched dosbarth, bydd ei chyllid yn cynyddu, a bydd gyda hi ragor o arian i'w wario ar ddarpariaeth ôl-16 a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer pob disgybl.
2	Mae cyrsiau Troseddeg yn llawn yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ac yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Dim ond dau athro troseddeg sydd gyda ni. A fyddai modd iddyn nhw addysgu pawb?	Gweler yr ymateb uchod ynglŷn â chyllid. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gwneud ei gorau glas i ddiwallu anghenion pob disgybl wrth gynllunio'r cwricwlwm ôl-16.

3	Daw disgyblion o Ysgol Gyfun Aberpennar yma yn barod ar gyfer rhai pynciau, ond mae gyda ni ddau ddiwylliant tra gwahanol. Rydyn ni'n gwisgo gwisgoedd gwahanol, yn cynnal diwrnodau elusen ar wahân, ac ati.	Wedi'i nodi. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y byddai rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newid i ddechrau, fodd bynnag, byddai cymorth yn cael ei ddarparu. Rydyn ni'n gobeithio yn y tymor hwy y byddai'r cynnig yma'n cael effaith gadarnhaol ac yn dod â'r ddau ddiwylliant ynghyd.
4	Yn union fel y gwnawn gyda disgyblion yn ymuno ym mlwyddyn 7, byddai modd i ni gynnal diwrnodau agored i ddisgyblion blwyddyn 11 o Ysgol Gyfun Aberpennar i ymweld ag Ysgol Gymunedol Aberdâr a dod i arfer â hi.	Mae hynny'n syniad arbennig o dda a byddai'n ffordd wych o gynyddu gwaith ar y cyd rhwng y ddwy ysgol.
5	Mae'r naid o TGAU i Lefel A eisoes yn frwydus. Bydden ni am i ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar sy'n ymuno â ni deimlo mor gyfforddus â phosibl a chael yr un cyfleoedd â ni.	Wedi'i nodi.
6	A oes unrhyw opsiynau eraill ar gyfer disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar pe bai eu chweched dosbarth yn cau, neu a fyddai'n rhaid iddyn nhw ddod i Ysgol Gymunedol Aberdâr?	Mae'n hollbwysig bod <u>pob</u> disgybl (o Ysgol Gyfun Aberpennar ac unrhyw ysgol arall) yn cael ei gefnogi i ddewis y llwybr cywir ar ôl blwyddyn 11. I rai, chweched dosbarth yn yr ysgol fydd y dewis gorau, ond i eraill, astudio cwrs mewn coleg lleol fyddai'r dewis gorau.
7	Os bydd disgyblion yn dewis mynd i'r coleg, a fyddan nhw'n cael cludiant am ddim?	Mae Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn nodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ôl-16 llawn amser sy'n byw mwy na 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol neu goleg addas agosaf lle mae'r cwrs cymeradwy maen nhw'n dymuno ei astudio yn cael ei gynnig. Mae hyn yn golygu y byddai cludiant am ddim ond yn cael ei ddarparu os nad yw'r cwrs y maen nhw'n dymuno ei astudio yn y coleg yn cael ei gynnig gan Gonsortiw Cwm Cynon, trefniadau Consortiw Ôl-16 Cwm Cynon (h.y. Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru).

4. Sylwadau i Gloi

Cafodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig i CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Rhodddwyd diolch i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00.